

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO, RISG A SICRWYDD (ARAC) FESTIVAL 2022 LTD DRWY GYNHADLEDD FIDEO DDYDD MAWRTH 15 TACHWEDD

2022, 15:00 – 17:00

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")
(y "Rhaglen" ac "UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU")

Yn bresennol:

Faraz Tasnim (FT)
Amali de Alwis (AdA)
Liam Hannaway (LH)
Roger Lewis (RL)

Cadeirydd ARAC, Cyfarwyddwr Anweithredol
Cyfarwyddwr Anweithredol
Cyfarwyddwr Anweithredol yn cynrychioli Gogledd Iwerddon
Cyfarwyddwr Anweithredol yn cynrychioli Cymru

Observers Present:

Greg Wilson (GW)
Daniel Coles (DC)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Yr Adran dros Ddiwylliant Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon
("DCMS")
PwC

Adam Richards (AR)

Hefyd yn bresennol:

Phil Batty (PB)
Caroline McGrory (CMcG)
David Grady (DG)
Sarah Tromans (ST)
Jack Spooner (JS)
Ruth Marshall (RM)
Lucy Bailey (LB)
Rachel Jurance (RJ)
Laura O'Flynn (LO'F)

Prif Swyddog Gweithredu
Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni
Prif Swyddog Cyllid
Cyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol a Rheoli Contractau
Uwch Reolwr Cyllid
Pennaeth PMO a Sicrwydd
Cyfarwyddwr Prosiect
Cynorthwydd y Prosiect
Pennaeth Llywodraethu a Diddymu (Cymryd Nodiadau)

48/22 Croeso a diben y cyfarfod

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol ac amlinellodd yr agenda. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alison Breadon o PwC.

49/22 Cymeradwyo'r cofnodion a materion sy'n codi

Rhoddodd y Cadeirydd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi ac ni nododd unrhyw gamau gweithredu'n weddill.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022 fel cofnod cywir a byddant yn cael eu llofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig a bydd copi wedi ei olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

50/22 Gwybodaeth Ddiweddaraf y Weithrediaeth

Atgoffodd PB fod Gwella'r Comisiwn wedi'i ddarparu i fanteisio i'r eithaf ar effaith y buddion ac i wneud y gorau o asedau prosiect, er enghraifft gwnaeth y galw gan y gynulleidfa gefnogi ymestyn SEE MONSTER. Parhaodd y gwaith ymgysylltu â'r rhaglen yn gryf yn ystod y cyfnod diweddar, gyda gweithgareddau ar y gweill ym mhob un o'r 10 prosiect wrth i'r rhaglen ddod at ddiwedd y rhaglen digwyddiadau byw.

Mae metrigau ymgysylltu a'r gynulleidfa yn tracio'n uwch na'r dangosyddion perfformiad allweddol a byddant yn darparu buddion cryf ar berfformiad cyffredinol.

Yno nododd ARAC nad yw'r rhain yn cyrraedd y rhai a fodelwyd yn yr Achos Busnes Llawn, ond bod y ffigurau hynny wedi'u datblygu yn ystod cam gysyniadau ar gyfer y rhaglen yn seiliedig ar ddigwyddiadau dirprwyol a gweithgareddau digidol. Mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i gyflawni o fewn yr ystod a nodir yn yr Achos Busnes Llawn. Bydd data mwy manwl ar gael cyn cyfarfod y Bwrdd ar 22 Tachwedd.

Dywedodd PB fod ymgysylltu â'r cyfryngau dal yn anodd, gyda naratif sefydledig a fyddai'n anodd ei dileu'n gyfan gwbl, fodd bynnag, bydd y tîm yn parhau i eirioli gyda'r cyfryngau a rhanddeiliaid dros y lefelau sylweddol o ymgysylltu â'r gynulleidfa sydd wedi'u cyflwyno drwy'r rhaglen, cyflawni cyfanrwydd y prosiect yn gyflym ac mewn da bryd ac o fewn y gyllideb a'r manteision a'r effaith eang ac amrywiol a gyflawnwyd. Bydd hyn yn cynnwys rownd o'r cyfryngau ar ddiwedd y rhaglen digwyddiadau byw a chefnogi gweithgarwch digwyddiadau i randdeiliaid.

Gwnaeth y Pwyllgor longyfarch y tîm ar y canlyniadau. Roedd RL o'r farn y dylai'r tîm barhau i geisio gyda'r cyfryngau, a chytunodd PB i barhau i wneud hynny.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad arall ynghylch ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Cadarnhaodd PB fod ymgysylltu sylweddol wedi bod hyd yma a byddai'r papur etifeddiaeth yn blaenoriaethu'r gynulleidfa hon.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf ar statws y 10 comisiwn. Rhoddodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf mai dim ond dau ddigwyddiad byw sy'n weddill o raglen gyflenwi fyw, gyda SEE MONSTER yn cau ar 20 Tachwedd ac Amdanom ni yn gorffen ar 19 Tachwedd. Mae'r gweithgaredd cyfranogol yn digwydd tan ddiwedd y flwyddyn, felly bydd yn parhau, ochr yn ochr ag ymgysylltu digidol a darlledu. Aeth y Pwyllgor ymlaen i gadarnhau'r rheolaethau sydd ar waith i gau'r Comisiynau. Dywedodd PB fod adolygiad o gytundebau'r Comisiynau wedi'i drefnu ym mis Rhagfyr er mwyn sicrhau bod yr holl rwymedigaethau wedi'u bodloni, gweithgaredd etifeddiaeth wedi'i gipio, risgiau wedi'u cofnodi a'u cau. Bydd hyn yn galluogi cau'r Cytundebau Comisiynu yn gyfan gwbl ym mis Ionawr.

51/22 Diweddariad Adroddiad Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Dywedodd PB fod Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi ymgymryd â'i gwaith maes a'i bod yn symud ymlaen â'r adroddiad. Roedd y Tîm Gweithredol a'r DCMS wedi cael canlyniadau rhagarweiniol.

Cadarnhaodd GW fod tîm annibynnol yn Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynnal yr adolygiad a bod GW wedi cyfannu yn ôl y galw yn unol â chwmpas yr adolygiad.

Cadarnhawyd mai adolygiad ffeithiol yw'r adroddiad ac nid asesiad gwerth am arian gan y byddai hynny'n gofyn am allbwn y gwerthusiad terfynol a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2023.

Cadarnhaodd yr ARAC y byddai'n synhwyrol oedi llofnodi cyfrifon diwedd y flwyddyn nes bod adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi dod i ben erbyn 1 Rhagfyr 2022.

52/22 Crynodeb o'r Adroddiad a Datganiadau Ariannol

Rhoddodd DG yr wybodaeth ddiweddaraf i ARAC ar yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyfrifon diwedd y flwyddyn i'w hadolygu gan ARAC ar 6 Rhagfyr a'u cymeradwyo i'r Bwrdd ar gyfer 8 Rhagfyr.

Amlinellodd DG broses paratoi'r cyfrifon annibynnol a'r cyfrifon cyfunol.

Cyflwynodd JS y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen). Gofynnodd RL am yr wybodaeth ddiweddaraf i ddogfennau 5a atodiad 2, tudalen 2 rhestr o gyfarwyddwyr, i gywiro hepgoriad.

Canfyddiadau archwilio allanol a barn archwilio

Rhododd GW sylwebaeth ar yr archwiliad parhaus.

Dyweddodd GW wrth yr ARAC nad oes unrhyw bryderon i'w codi ar hyn o bryd.

Nododd GW fod yr archwiliad yn gymhleth, ond bod y profiad o weithio gyda'r tîm wedi bod yn effeithlon iawn a diolchodd i'r tîm Cyllid.

Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiadau Ariannol ac ni roddodd sylwadau eraill i'r Pwyllgor Gwaith. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr wybodaeth hyd yma yn dangos aeddfedrwydd rheolaethau a phrosesau'r sefydliad a'i fod yn gofnod cywir o sefyllfa'r Cwmni.

Diolchodd y Pwyllgor i bawb a oedd wedi cyfrannu at yr archwiliad allanol.

Adroddiad ARAC

Cafodd hyn ei gynnwys yn y cyflwyno a thrafodaeth ar yr eitem gryno a nodwyd y papur gan y Pwyllgor.

Cymeradwyo'r Adroddiad a Datganiadau Ariannol i'r Bwrdd

Nododd y Pwyllgor y papur heb unrhyw sylwadau eraill.

PENDERFYNWYD BOD YR ARAC yn cymeradwyo ac argymhell yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol ar y ffurf y nodir ym Mhapur 5a Atodiad 2, gan nodi y byddai'r rhain yn cael eu hadolygu ar ffurf ddrafft gan y Bwrdd ar 22 Tachwedd ac iteriad arall yng nghyfarfod ARAC ar 6 Rhagfyr cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan y Bwrdd ar 8 Rhagfyr.

Dadansoddiad Hyblygrwydd Ariannol

Nododd JS y safiad fel y nodwyd yn y Papur, gan gynnwys safiad cyfanswm yr hyblygrwydd a nodwyd. Cadarnhaodd y Pwyllgor Gwaith bod adolygiad cyllideb llawn o'r dechrau i'r diwedd wedi'i gynnal i lywio'r sefyllfa hon. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar ymrwymadau a dyraniadau a ddarparwyd yn unol â'r cyfeiriad a osodwyd yn y Bwrdd ar 26 Awst 2022.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder arall ar y ddarpariaeth gyllideb briodol ar gyfer diddymu corff hyd fraich sy'n eiddo i'r Llywodraeth.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ar y sefyllfa fel cymhariaeth â'r pwyllgor trefnu a ddarparwyd gan DG. Gofynnodd y Pwyllgor am yr wybodaeth ddiweddaraf ar y mater hwn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD BOD YR ARAC yn cymeradwyo'r safiad fforddiadwyedd a nodwyd yn y Dadansoddiad Hyblygrwydd Ariannol i'w gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer cyfeiriad strategol yng nghyfarfod 22 Tachwedd 2022.

53/22 Canlyniadau Archwilio Mewnol a Risgiau Gweddilliol

Cyflwynodd AR y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen). Dywedodd AR fod tri

adolygiad olaf y cynllun oes cyffredinol; diddymu, cau'r comisiwn a gwerthuso comisiynau wedi dod i ben. Rhoddodd AR gyfrif cyffredinol o'r gwaith maes wedi'i adrodd yn ôl mewn amser gwirioneddol ac mae'n cynnwys ymatebion y tîm rheoli, gan ddangos y gwaith wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'r archwiliad.

Tynnodd AR sylw at y llinell amser i gwblhau gweithgareddau cau ar y cyd â diddymu'r gweithlu a balansau gwyliau blynyddol sy'n weddill. Rhoddodd LO'F yr wybodaeth ddiweddaraf fod yr ymarfer troshaen wedi cwblhau mapio adnoddau i weithgareddau.

Amlinellodd LO'F sesiwn hyfforddi a ddigwyddodd i rannu blaenoriaethau diddymu.

Gwnaeth AR a PB grynhoi risgiau a materion allweddol yn ymwneud â chau comisiynau, gan nodi'n benodol bod Timau wedi'u Comisiynu yn lleihau o ran adnoddau gweithlu hefyd.

Nododd yr ARAC gynnwys y papur.

Roedd y Cadeirydd o'r farn ei fod yn adolygiad da a thrafodaeth dda gydag ymatebion da gan y rheolwyr. Diolchodd AR i LO'F ac RM am ymateb yn effeithlon ac am ymgysylltu.

Cadarnhaodd AR fod yr archwiliadau hyn wedi dod i'r casgliad bod y cynllun oes wedi mynd ati i gyflawni. Gofynnodd y Cadeirydd fod adroddiad cryno yn cael ei lunio er mwyn cyfleu sut wedd ddylai fod ar raglen archwilio mewnol dda er mwyn i'r DCMS ei ddefnyddio mewn prosiectau yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: AR i lunio adroddiad cryno i gipio cynllun Oes yr Archwiliad Mewnol.

54/22 Gwybodaeth ddiweddaraf diddymu

Cyflwynodd LO'F y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) a chyfeiriodd at statws diddymu RAG yn symud i ambr.

Cyflwynodd ST y papur llinell amser diddymu (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) a nododd yr argymhellion. Roedd y Tîm Gweithredol wedi ymchwilio i ddatgysylltu'r pwyllgor trefnu ac UNBOXED gyda'r 3 dewis a gyflwynwyd yn y papur. Mae'r Tîm Gweithredol o'r farn nad yw'n ddewis ymarferol i ddatgysylltu. Yr argymhelliad yw dewis 1, sef i barhau â'r cynllun presennol gyda llinell amser wrth gefn i'r wythnos yn dechrau 13 Mawrth 2023 cyn trosglwyddo i PwC.

Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau eraill i'w codi ar y naill bapur na'r llall ac roeddent yn gefnogol o ddewis 1.

PENDERFYNWYD bod ARAC wedi cymeradwyo argymhelliad 1, sef i barhau i fod ynghlwm wrth y pwyllgor trefnu ac ymestyn y llinell amser diddymu i'r wythnos yn dechrau 13 Mawrth 2023.

55/22 Adolygiad Risg Allweddol: Llinell Amser Gwerthuso

Ymunodd NC â'r cyfarfod.

Gwnaeth PB gyflwyno'r papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) a nododd fod y llinell amser yn risg. Andrew Thompson yw hyrwyddwr y Bwrdd o hyd ac mae'n monitro cynnwys y gwerthusiad. Mae'r Rhaglen estynedig wedi rhoi pwysau ar y llinell amser gwerthuso mewn manau a daethpwyd â hi i'r Pwyllgor er tryloywder.

Mae casglu data yn mynd ymlaen nawr fel pwynt pwysu i gael y wybodaeth gan dimau'r Comisiwn.

Mae'r tîm Gwerthuso wedi gweithio drwy gyfres o fesurau liniaru. Mae llinell amser gywasgedig ac nid oes unrhyw fesurau lliniaru eraill i'w rhoi ar waith, heblaw am adnoddau.

56/22 Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ar Adroddiad y Portffolio Rheoli Risg

Cyflwynodd RM y papur (y cymerwyd ei fod wedi ei ddarllen) gan amlinellu'r newidiadau i safiad y Portffolio Rheoli Risg. Nodwyd bod newid o gyflwyno byw a chyfathrebu yn cael ei reoli ar gyfer yr adroddiad.

Trafodwyd y risgiau strategol gan y Pwyllgor.

57/22 UNRHYW FATER ARALL

Ni chafodd eitemau 'Unrhyw Fater Arall' eu codi. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

Cau'r cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 17:00. Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod ffurfiol nesaf sef 6 Rhagfyr, yn rhithiol.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir fel arall:

Cyfarwyddwyr ARAC

Arsylwyr ARAC

Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad yr anfonwyd at y Cadeirydd: 7 Rhagfyr 2022

Dyddiad y dychwelyd at y Gweinyddwr: 9 Rhagfyr 2022

Dyddiad dosbarthu: 20 Rhagfyr 2022